TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# UAL Diploma mewn Celf a Dylunio Lefel 3



**Yn gryno**

Mae'r cwrs 2 flynedd newydd ac arloesol hwn yn eich helpu i ddysgu beth sy'n eich diddori chi fwyaf ym maes celf a dylunio a datblygu rhai o'r sgiliau sylfaenol sy'n sail i'r disgyblaethau creadigol.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... ydych yn greadigol

... ydych eisiau datblygu sgiliau ymarferol

... ydych eisiau cwrs sy'n adlewyrchu profiad o'r diwydiant

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Rydym yn gyffrous i fod yn ganolfan gymeradwy ar gyfer corff dyfarnu Prifysgol y Celfyddydau Llundain (UAL). Bydd y cwrs hwn yn eich annog a'ch ymestyn i gyfathrebu'n weledol, meddwl

yn gysyniadol a datblygu technegau datrys problemau ac ymarferol.

Gyda mynediad at weithdai a stiwdios dylunio gyda'r holl gyfleusterau proffesiynol, byddwch yn dysgu drwy arbrofi gan ddefnyddio ystod eang o brosesau 2D, 3D a digidol. Bydd y prosiect yn eich helpu i ennill dealltwriaeth gyd-destunol o gelf a dylunio a'ch cefnogi i wneud a mynegi eich taith bersonol a dehongliadau. Drwy gydol eich taith byddwch yn cael eich addysgu a'ch cefnogi gan diwtoriaid gyda sgiliau, gwybodaeth a phrofiad helaeth o ymarfer diwydiannol ac addysg o fewn y celfyddydau creadigol. Drwy gydol y flwyddyn, byddwch yn cael eich annog i ddatblygu cysylltiadau a diddordebau personol. Yn ystod tymor 3, byddwch yn negodi prosiect a gychwynnwyd gennych chi, gan eich galluogi i adnabod maes diddordeb mwy arbenigol, megis ffasiwn a thecstilau, celf gain, dylunio 3D, Gwneud Printiau, Cerameg, Lluniadu Digidol neu Ffotograffiaeth.

Cewch eich asesu drwy waith cwrs a, phan fyddwch wedi ei gwblhau, byddwch yn cyflawni:

Celf a Dylunio Lefel 3
Cymwysterau cynorthwyol priodol er mwyn lledu eich sgiliau

Gweithgareddau Sgiliau

Saesneg a Mathemateg

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I gofrestru ar y cwrs hwn, mae angen i chi fod ag o leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch, gan gynnwys un ai Mathemateg/Rhifedd neu Gymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg, neu gymhwyster Diploma Lefel 2 priodol ar radd Teilyngdod gyda TGAU Gradd C neu uwch mewn un ai Mathemateg/Rhifedd neu Gymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg.

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol, yn ogystal â pharch tuag at eraill, gallu i gymell eich hun, gallu creadigol a dyhead i lwyddo.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Wedi i chi gwblhau'r diploma un flwyddyn, byddwch yn cael y cyfle i symud ymlaen i'r ail flwyddyn (Estynedig), gallwch ganolbwyntio ar arbenigedd o'ch dewis, yn ogystal â gweithio ar draws y cyfryngau a gweithdai a fydd yn eich galluogi i ddewis eich llwybr gyfra mewn ffordd wybodus.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Dilyniant i Addysg Uwch ar gwblhau blwyddyn dau yn llwyddiannus. Yma yn Coleg Gwent, rydym yn cynnig ystod o gyrsiau Addysg Uwch ar lefel Gradd a Lefel Baglor yn y Celfyddydau ym meysydd creadigol Darlunio, Artist Dylunydd Gwneuthurwr a Ffotograffiaeth.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Ein nod yw ei gwneud hi mor hawdd ag sy'n bosibl i sicrhau eich lle ar eich rhaglen ddelfrydol. Rydym yn eich croesawu i'ch nosweithiau agored a sesiynau blasu (gweler y wefan ar gyfer dyddiadau cyfredol), gan eich galluogi i brofi gweithdai creadigol ac ymweld â'n hamgylchedd creadigol gyda'r holl gyfleusterau.

Llwybr Ffotograffiaeth

Yn ogystal â'n darpariaeth Celf a Dylunio, rydym wrth ein boddau'n gallu cynnig llwybr Ffotograffiaeth penodol unwaith yn rhagor. Bydd hyn yn caniatáu dysgwyr sy'n ymddiddori'n frwd mewn ffotograffiaeth y cyfle i ganolbwyntio'n drylwyr ar ddatblygu eu sgiliau camera a stiwdio ymarferol drwy weithdai ac aseiniadau, cynhyrchu syniadau ffotograffig, astudiaethau hanesyddol a damcaniaethol drwy ddarlithoedd a thrafodaethau agored, a gwella hyder a sgiliau cymdeithasol drwy friffiau byw, adborth parhaus ac adolygiad cymheiriaid.

Bydd y llwybr hwn yn cynnwys:

Y ddau weithdy, traddodiadol a digidol, yn defnyddio ein hoffer camera proffesiynol diweddaraf

Gweithdai portreadaeth a bywyd llonydd yn ein stiwdio eithriadol bwrpasol
Gweithdai ar leoliad yn ystod teithiau maes o fewn y dirwedd Gymreig odidog
Darlithoedd a thrafodaethau academaidd ar ffotograffiaeth fodern a hanesyddol
Cyfle i drafod materion cyfoes ac ymateb yn ffotograffaidd
Ymweliadau oriel ac amgueddfeydd, yn ogystal â siaradwyr gwadd a gweithdai